Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
HM Chief Inspector of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

27 Tachwedd 2025

Annwyl Martin,

**Adroddiadau Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ar arolygu Uned Gyflawni Prawf (Uned Gyflawni) Caerdydd a'r Fro, Rhanbarth Cymru - Hydref 2025**

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu ar gyfer Uned Gyflawni Caerdydd a'r Fro, lle bu i chi wneud cyfanswm o saith argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a, chyda chymorth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, bydd Penaethiaid yr Uned Gyflawni'n sicrhau y byddir yn cymryd camau i roi sylw iddynt, fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys yr isod:

- Mae canllawiau diwygiedig a ffurflenni cyfnewid gwybodaeth wedi'u datblygu a'u cyflwyno mewn partneriaeth gyda'r Heddlu a'r Gwasanaethau Plant i gryfhau cysondeb ac ansawdd gwybodaeth am ddiogelu a cham-drin domestig.
- Mae archwiliadau Cadw Pobl yn Ddiogel wedi'u cyflwyno yn rhan o'n dull gweithredu Sicrwydd Haen 1 i wella ansawdd a chysondeb ymarfer rheoli risg.
- Gweithredir y fframwaith rheoli goruchwyliaeth cenedlaethol newydd ledled y rhanbarth i wella safon goruchwylio, gwneud penderfyniadau, a chyfeiriad achosion.
- Bydd fframwaith hyfforddi a gwydnwch Uwch-swyddogion Prawf rhanbarthol wedi'i gryfhau yn gymorth i greu arweinyddion hyderus a goruchwyliaeth effeithiol ledled yr holl Unedau Cyflawni, gan sicrhau fod gwaith cynllunio, goruchwylio a datblygu'r gweithlu'n broffesiynol yn gynaliadwy ac yn gyson â'i gilydd.

Er yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud eto yn Uned Gyflawni Caerdydd a'r Fro, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf yr isod:

- Mae gan yr Uned Gyflawni nodau strategol clir i gadw pobl yn ddiogel a grymuso staff i gyflawni gwasanaethau effeithiol, gyda chymorth cynllun staff clir a chryno sy'n meithrin blaenoriaethau craidd.

- Caiff arweinyddion eu parchu ac maent yn ddylanwadol ar draws partneriaethau lleol, gyda diwylliant o her ac arloesedd proffesiynol iach.
- Mae staff yn parhau i fod yn ymroddedig ac yn broffesiynol, gan ddangos gwydnwch a hyblygrwydd mewn cyd-destun sy'n gofyn llawer ohonynt, gydag ymrwymiad gwirioneddol i'r bobl y maent yn eu goruchwylio ac i amddiffyn y cyhoedd.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion yr Arolygiaeth Prawf a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth y Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg, ein bod yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Cymru

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru